Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

13 Mawrth 2008

Bydd gwneud defnydd gwell o ddata yn helpu gwella safonau mewn ysgolion

Nid yw awdurdodau lleol ac ysgolion yng Nghymru yn gwneud y defnydd gorau o ddata sydd ar gael iddynt er mwyn helpu nodi a herio perfformiad gwael a rhannu arfer dda.

Gallai defnydd mwy effeithiol o wybodaeth am berfformiad ym mhynciau'r cwricwlwm cenedlaethol a data sy'n helpu pob ysgol i gymharu eu perfformiad ag ysgolion tebyg eraill, helpu gwella safonau yn sylweddol. Byddai hefyd yn helpu amlygu'r ysgolion hynny y mae angen eu gwella fwyaf, er mwyn gallu dod â chymorth cryfach trwy awdurdodau lleol ar gyfnod cynnar.

Mae nifer o awdurdodau lleol yn defnyddio data fel canlyniadau arolygu Estyn, a chanlyniadau arholiadau a'r cwricwlwm cenedlaethol i helpu iddynt ddadansoddi a chymharu'n systematig pa mor dda y mae eu hysgolion yn perfformio. Fodd bynnag, nifer fach o awdurdodau lleol sy'n rhoi digon o anogaeth i ysgolion i gymharu eu perfformiad eu hunain ag eraill a gosod targedau heriol sy'n annog pob dysgwr i gyflawni ei orau.

"Mae nifer yr ysgol y nodwyd gan arolygwyr Estyn eu bod yn achosi pryder bron ddwywaith y nifer a nodwyd gennym yn 2005-2006. Mae angen i awdurdodau lleol ac ysgolion gael dealltwriaeth ar y cyd o ble mae tanberfformio er mwyn gallu herio hyn a'i gefnogi yn gynnar," meddai Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae bron pob ysgol wedi gwella'r ffordd y mae'n casglu, yn dadansoddi, yn dehongli ac yn rhannu data er 2003. Ond mewn ysgolion uwchradd, mae gormod o amrywiad ar lefel adrannol, yn y ffordd y maent yn defnyddio ac yn dehongli data. Mae Estyn yn argymell y dylai uwch arweinwyr mewn ysgolion weithio'n agos â'u penaethiaid adran i sicrhau eu bod yn gwneud defnydd effeithiol o ddata.

Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn rhannu data ynglŷn â pha mor dda y mae ysgolion unigol yn gwneud gydag aelodau etholedig. O ganlyniad, mae aelodau etholedig wedi'u cyfyngu yn eu gallu i gwestiynu ac archwilio pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cefnogi gwella ysgolion. Mae Estyn yn argymell y dylai pob awdurdod lleol symud i rannu dadansoddiadau o'r math hwn gydag aelodau etholedig, ysgolion eraill a phobl berthnasol yn rheolaidd.

Mae Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod setiau data presennol a baratowyd yn genedlaethol ar gael i awdurdodau lleol yn gynharach yn ystod tymor yr hydref er mwyn iddynt allu eu defnyddio wrth osod targedau a chynllunio ar gyfer y flwyddyn academaidd honno. Yn ychwanegol, mae Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gryfhau ei harweiniad ar y materion hyn, gan gynnwys rhannu data perfformiad ysgol gydag aelodau etholedig, pob ysgol a phartneriaid perthnasol yn unol â'r hyn sy'n briodol.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

- Mae Estyn, swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn darparu gwasanaeth arolygu a chyngor o ansawdd uchel.

- Comisiynwyd adroddiad Estyn, 'Defnydd awdurdodau lleol ac ysgolion o ddata perfformiad', gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

- Mae sail y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys:
    - Arolygiadau o ysgolion a gwasanaethau gwella awdurdodau lleol rhwng mis Medi 2005 a mis Mehefin 2007;
    - Cyfweliadau â'r holl swyddogion sy'n gyfrifol am wella ysgolion
    - Dadansoddi data ym mhob awdurdod addysg lleol
    - Cyfweliadau â phenaethiaid a staff eraill sy'n gyfrifol am ddadansoddi data perfformiad

- Mae Estyn yn arolygu ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion annibynnol, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau cymorth ieuenctid, y system cyfiawnder ieuenctid, awdurdodau addysg lleol (AALlau), addysg a hyfforddiant athrawon, dysgu yn y gwaith, cwmnïau Gyrfa Cymru, ac elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni'r Ganolfan Byd Gwaith.

- Mae copïau llawn o adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Gina Carrington
Y Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464